

Heledd says *Ny dyrchafun ry mordweyt*, then indeed her failure to raise her thigh may be termed 'dirmygus'. Such an interpretation is at least supported by the evidence derived from early Irish sources.

Harvard.

VERNAM HULL.

### CHWEDL MYRDDIN A'R FARWOLAETH DRIPHLYG YNG NGRONICL ELIS GRUFFUDD

Gwyddys nad yw'r broffwydoliaeth (a gyflawnir ymhen amser) am farwolaeth driphlyg yn elfen yn y chwedl am Fyrddin fel y'i cadwyd yn Gymraeg. Fe'i ceir yn *Vita Merlini* Sieffre o Fynwy, ll. 310-21, 391-417, lle y ceir y broffwydoliaeth am farw'r bachgen y deuir ag ef at Fyrddin gan ei chwaer. Yn ei argraffiad o'r *Vita Merlini*, tt. 119-20, nodiadau 14-15, ymdriniodd y diweddar J. J. Parry â motif y farwolaeth driphlyg gan ddadlau ei fod o darddiad Celtig. Yn ddiweddarach, yn ei erthygl 'The Triple Death in the *Vita Merlini*' yn *Speculum*, v. 216-17, galwodd sylw at ddwy gerdd Ladin gan Ildebert, esgob Le Mans, sy'n sôn am yr un motif. Yr unig enghreifftiau eraill o'r motif a gawsai mewn llenyddiaeth Geltig oedd chwedl Lailoken a'r stori am Dwm Celwydd Teg a geir yn *Iolo Manuscripts*, 202. Erbyn hyn olrheiniwyd llawer mwy o chwedlau sy'n cynnwys y motif hwn a chydabyddir ef fel elfen ganolog math o stori sy'n gyffredin iawn—y teip a elwir yn storïau cydgenedlaethol.

Yn ei erthygl 'The Motive of the Three-fold Death in the Story of Suibhne Geilt' yn *Féil-sgríbhín Eóin Mhic Neill* (Dublin, 1940), 551 yml., ymdriniodd yr Athro Kenneth Jackson â'r motif hwn fel y'i ceir yn y testunau Gwyddeleg *Aided Diarmada* ac *Aidhedh Muirchertaig mic Erca*, yng ngherddi Ladin Ildebert, ym 'Mucedd St. Columba', yn y ddau fersiwn o chwedl Lailoken, yn y *Vita Merlini*, ac yn chwedl Suibhne Geilt. Dangosodd nad yw chwedlau sy'n cynnwys y motif hwn yn gyfyngedig i'r gwledydd Celtaidd a chyfeiria at chwedl debyg yn Esthonia. Gan ddilyn nodiadau J. J. Parry, loc. cit. sonia Jackson am yr un motif fel y'i ceir yn Gymraeg yn *Iolo Manuscripts*, 202 ac yn *The Folklore of the Afan and Margam District* by Martin Phillips (Neath, 1933), 22-24. Sut bynnag, nid oes gwerth annibynnol yn y cyfeiriad at y llyfr olaf hwn oherwydd y mae'r stori am Dwm Celwydd Teg a adroddir ynddo wedi'i chodi'n uniongyrchol o'r *Iolo Manuscripts*. Am y stori fel y ceir hi gan Iolo anodd dweud dim sicr am ei ffynhonnell, ond y mae'n ddigon posibl mai stori werin a glywsai ar lafar ydyw, wedi'i chofnodi yn ei ddull ei hun gan Iolo. Beth bynnag am hynny, cyn imi ddod ar draws y chwedl a brintir isod yn rhan gyntaf Cronicl Elis Gruffudd (c. 1490-c. 1552), y milwr o Galais, y stori am Dwm Celwydd Teg oedd yr unig stori Gymraeg yn cynnwys y broffwydoliaeth am farwolaeth driphlyg y gwyddwn amdani.

Y cwestiwn cyntaf a'r pwysicaf ynglŷn â'r chwedl isod yw ai stori werin a glywsai yng Nghymru a gofnododd Elis Gruffudd ai ynteu stori y daeth ar ei thraws mewn rhyw ffynhonnell estron—Ffrangeg neu Saesneg—boed mewn llyfr neu ar lafar. Dangosais yn *Cylchgrawen Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, iii. 151-7 fod peth rheswm dros gredu ei fod wedi clywed 'Hanes Llywelyn ap Iorwerth a Chynwrig Goch o Drefriw' fel stori lafar er bod ffurf ysgrifenedig gynharach na'i gyfnod ef ar glawr heddiw yn

llsgr. Peniarth 27, Rhan II, tt. 65-66, a gopiwyd gan Gutun Owain. Ar y llaw arall nid oes amheuaeth nad cyfieithu 'Ystorya Erkwlf' (gw. B x. 284-97; xi. 21-30, 85-91) a wnaeth Elis o destun Ffrangeg. Ac y mae digon o dystiolaeth yng Nghronicle Elis ar ei hyd ei fod yn darllen yn eang yn Ffrangeg ac yn Saesneg ac yn benthycu o lyfrau a llsgrau. yn yr ieithoedd hynny.

Nid yw'r stori sydd gan Elis yn debyg i unrhyw stori Geltig arall sy'n cynnwys y broffwydoliaeth am farwolaeth driphlyg. Nid yn unig y mae ei chefnidir yn wahanol, ond y mae'r marwolaethau a broffwydir yn driawd nas ceir yn union yr un fath nac yn yr un drefn yn unrhyw stori arall o darddiad Celtig. Ar y llaw arall, y mae holl rediad stori Elis a rhai manylion ynddi yn awgrymu mai ei ffynhonnell yw rhyw ffurf ar y rhamantau Ffrangeg a Saesneg am Fyrddin, — rhamantau yr aeth motif y Farwolaeth Driphlyg yn ei gysylltiad â Myrddin yn rhan adnabyddus ohonynt.

Ceir y stori yn Ffrangeg yn y *Merlin en prose*, rhariant a seiliwyd ar y gerdd *Merlin* gan Robert de Boron, c. 1200, cerdd na chadwyd ond tua 500 llinell ohoni,<sup>1</sup> a stori'r farwolaeth driphlyg heb fod yn y llinellau hynny. Gellir gweld y ffurf ryddiaith a seiliwyd ar y gerdd goll, yn *Merlin, roman en prose du XIII<sup>e</sup> siècle, publié avec la mise en prose du poème de Merlin de Robert de Boron . . .* Gaston Paris et Jacob Ulrich (Société des Anciens Textes Français, xxxix), vol. i (Paris, 1886), 80-84, yn *Le Roman de Merlin*, ed. H. Oskar Sommer (London, 1894), ac yn *Lestoire de Merlin*, ed. H. Oskar Sommer (Washington, 1908), 45-47. Yn llinach y llsgrau. sy'n sail i chwedl Myrddin yn yr argraffiadau diweddar a nodwyd uchod y mae *Le Premie[r] Volume de Merlin* a argraffwyd ym Mharis dros Antoine Verard yn 1498, a thebyg, ond byrrach, yw chwedl y farwolaeth driphlyg a geir ynddo, ff. xliiia-xliiia.<sup>2</sup> Gwyddys am o leiaf dri thestun Saesneg Canol sy'n deillio'n uniongyrchol o wahanol gopiau o'r rhariant Ffrangeg am Fyrddin ac fe geir ynddynt hwythau y stori am y farwolaeth driphlyg yn yr un ffurf ag yn y Ffrangeg gwreiddiol. Y cynharaf ohonynt yw'r testun mydryddol *Arthur and Merlin* a gyfansoddwyd tua dechrau'r XIV ganr. ac a olygwyd gan W. B. D. D. Turnbull dros yr Abbotsford Club yn 1837 a hefyd gan Yr Athro Kölbinger yn *Altenglische Bibliothek*, vol. iv, Leipzig, 1890. Yr ail yw'r testun rhyddiaith *Merlin* yn *The Early History of King Arthur*, ed. Henry B. Wheatley, 2 vols., E.E.T.S. Nos. 10, 21, 26, 36, 112 (1865-6, 1869, 1899).<sup>3</sup> Y trydydd fersiwn yw *Merlin, A Middle-English Metrical Version of a French Romance*, by Henry Lovelich, ed. Dr. Ernst A. Kock (E.E.T.S. Extra Series, No. xciii, 1904. Reprinted 1932).<sup>4</sup> Cyfansoddwyd cerdd Lovelich a'r testun rhyddiaith *Merlin* tua chanol y XV ganr.<sup>5</sup>

Gan mai'r testun Ffrangeg yw'r cynharaf o'r cwbl a ffynhonnell y testunau eraill, digon fydd crynhoi yma y stori fel y'i ceir yn *Lestoire de Merlin* a olygwyd gan Sommer.

<sup>1</sup> Gw. Robert de Boron, *Joseph et Merlin*, ed. W. A. Nitze. 1927.

<sup>2</sup> Tebyg hefyd yw'r stori yn y trosiad Eidaleg, *Istoria di Merlino*, a gyhoeddwyd yn 1480; gw. *I Due Primi Libri della Istoria di Merlino*. Ristampati secondo la rarissima edizione del 1480 per cura di Giacomo Ulrich, Bologna, 1884, tt. 165-73.

<sup>3</sup> Am stori'r farwolaeth driphlyg gw. vol. i. 50-53.

<sup>4</sup> Am y farwolaeth driphlyg gw. tt. 101-6, ll. 3775-3958.

<sup>5</sup> Gwyddys fod *Morte Darthur* Malory wedi'i seilio i raddau helaeth ar y rhamantau Ffrangeg, ond ni cheir chwedl y farwolaeth driphlyg yn y rhan a edrydd hanes Myrddin.

Yr un yw rhediad a manylion y stori yn y testunau eraill a nodwyd uchod. Y mae barwn (*baron*) i'r brenin (*Uter Pandragon*) yn cenfigennu wrth Fyrddin ac fe ddaw ato gerbron y brenin a'i gyngor a'i holi sut y bydd farw. Etyb Myrddin mai drwy syrthio o'i geffyl a thorri ei fwnwgl (*si sacies bien que le iour que vous morres vous charres dun cheval et briseres le col et ensi partires celui ior de uo uie*). Dychwel y barwn i'w wlad ac ar ôl newid ei wisg daw eto i'r dref lle y mae'r brenin. Yno cymer arno fod yn sâl a dwg y brenin Fyrddin ato. Dywed Myrddin na bydd y salwch yn angheuol ac mai trwy grog y bydd farw (*cel ior . . . que tu moras seras tu troue pendu et penderas la ou tu moras*). Wedyn â'r barwn i fynachlog (*one abeie*) ac esgus bod yn sâl. Daw'r brenin gyda Myrddin i'r fynachlog a gofynnir i Fyrddin ddweud a fydd gwellhad i'r claf. Fe wŷr Myrddin pwy yw'r gŵr 'claf' a dywed wrtho y gall godi o'i wely achos y diwrnod y bydd farw fe dyr ei fwnwgl, fe fodda ac fe ymgrog (*le iour que il moura il se brisera le col et noiera et pendera*). Geilw'r barwn ar y brenin i gydnabod twyll a ffolineb Myrddin: sut y gall neb farw o dair ffordd—torri mwnwgl, ymgrogi a boddi? Yn ddiweddarach y mae'r barwn yn marchogaeth dros bont ar afon ac fe dripia ei farch (*trebuch ses palefrois et chai a ienols*) a thafu'r barwn nes iddo dorri ei fwnwgl a syrthio oddi ar y bont yn y fath fodd ag y mae plencyn o'r bont yn dal yn ei wisg, a'i draed i fyny a'i ben a'i ysgwyddau yn y dŵr oddi tanodd. Felly y bu farw o dorri ei fwnwgl, o grogi ac o fodd, fel y proffwydodd Myrddin.

O ddarlhen y stori isod fe welir ei bod yn cytuno o ran rhediad cyffredinol â'r un a amlinellwyd uchod: marwolaeth driphlyg barwn cenfigennus a broffwydir gan Fyrddin. Ond y mae gwahaniaethau rhwng y ddwy stori: (1) Gan Elis Gruffudd, Arthur ac nid Uthr Bendragon yw'r brenin; (2) mynegir y tair proffwydoliaeth mewn mynachlog, nid yr olaf ohonynt yn unig fel yn y Ffrangeg; (3) yn y chwedl Gymraeg trefn y marwolaethau a broffwydir yw crogi, torri mwnwgl, boddi: ond yn y Ffrangeg—torri mwnwgl, crogi, a thorri mwnwgl, boddi a chrogi gyda'i gilydd; (4) gan Elis un o goesau'r barwn, ar ôl ei dafu oddi ar ei farch, sy'n glynu yn y bont, ac nid plencyn o'r bont sy'n dal yn ei wisg fel yn y Ffrangeg.

Dengys y gwahaniaethau hyn nad cyfieithu unrhyw un o'r testunau Ffrangeg a Saesneg uchod a wnaeth Elis. Sylwer, er hynny, fod Elis wrth adrodd y stori yn defnyddio ymadroddion sy'n awgrymu ei fod wedi'i gweld ryw bryd neu'i gilydd mewn llyfrau. neu mewn llyfrau printiedig:

- megis ac J mae'r ysdori yn dangos (isod 187. 12-13);  
 megis ac J mae hrai o'r llyure ynn dangos (187. 38-188);  
 Neithyr J mae hrai eraill o'r llyure yn dangos (188. 3);  
 kanis J mae'r hran vwyaf o'r awdurion yn kydsynio (188. 9-10);  
 megis ac J mae'r ysdori yma yn dangos (188. 11).

Dichon fod fersiynau o'r chwedl ar gael sy'n wahanol i'r ffurf a amlinellais uchod, a minnau heb wybod amdanynt. Dichon, ar y llaw arall, fod ffurf y rhamantau Ffrangeg a Saesneg ar y chwedl wedi cael ei lledaenu ar lafar gyda chyfnewidiadau wrth iddi dreiglo o enau i enau. Gallai hyn gyfrif am y gwahaniaethau rhwng y ffurfiau, ac y mae'n arwyddocaol yn y cyswllt hwn fod y ffurf sydd gan Elis yn symlach nag yw'r un Ffrangeg—mewn mynachlog y mynegir y tair proffwydoliaeth. Beth bynnag am

hynny, y mae'n weddol sicr fod stori Elis yn deillio o ryw ramant am Fyrddin yn Ffrangeg neu Saesneg ac nad stori lafar a glywsai yng Nghymru mohoni. A chadw mewn cof gyfeiriadau Elis at 'lyfrau' ac 'awdurion' yr argraff a gaf i yw ei fod wedi darllen y stori, o bosibl mewn mwy nag un testun, a'i fod wedi'i hysgrifennu yn ei fiordd ei hun a thrwy hynny, efallai, beri rhai cyfnewidiadau cwbl anfwriadol. A chan fod *Brut Sieffre* a nifer o destunau eraill a oedd yn hysbys i Elis yn cysylltu Myrddin ag Arthur yn fwyaf arbennig, digon naturiol oedd iddo erwi'r brenin yn y stori yn Arthur ac nid yn Uthr Bendragon.

Golygir y testun sy'n dilyn yn y dull arferol.

[NLW MS. 5276D. 347a]

Yma ynn ol J dilin serttain o'r proffwydoliaethau a'r a wnaeth Merddin J Arthur, gida'r neb Jr yddoedd ef yn vawr J gymeriad ar yr amser kyntta. O'r achos, megis ac J mae'r ysdori yn dangos, J kymerth serttain o wasnaethwyr y brenin gynnuigen wrtho ef yn gymaint a gwneuthud ohonaunt twy J'r brenin goelio nad<sup>1</sup> oedd ohonaw ef onid fwl disynwyr ac na vedrai ef ddangos gwirionedd am y peth a ddelai ynn ol mwy no dyn arall. Ac i broui hynn yn wir y vo a ddangoses J'r brenin drwy hir broses megis J kymerai ef arno glyuychu o gleuyd ynn [y] loidgin nesa a'r J gorweddai y brenin ynddo ar y shiwrnai ynn yr amser Jr ydoedd y brenin yn myned parth a gogledd yr ynnys. Ac velly y brenin addewis yn ebrwydd gydsynio a'r marchog, o'r hyn J gwnaeth y brenin serttain o'i gyngor yn vn ac ef J dreio'r gwirionedd ynn yr achos hwn.

Ac velly y brenin a bwynttiodd J shiwrnai o vanachlog bigilidd. Yn yr amser Jr aeth y marchog J'r gynta ohonnaunt, ynn y lle J gwnaeth ef yr abad o'i gyurinach. Ac erbynn dyuod y brenin a'i lys ynno Jr ydoedd<sup>2</sup> ef yn gorwedd ar i wely ynn glaaf. O'r achos J gwnaeth yr abad achwyn mawr wrth y brenin megis ac Jr yddoedd wr bonheddig o'r tyff ynn glaaf ac yn debig J varw. J edrych y neb ynn i gleuyd J doeth y brenin drwy ddwyn Merddin gidag ef. Y neb ynn ol hir broses a ddyuod ef<sup>3</sup> J'r brenin ac J'r abad na byddai raid vddunt twy ovynni dim o'i varuolaeth ef ar hyny o amser drwy d[d]angos vddunt twy na byddai ef varw ar [347b] i glaf wely, namyn<sup>4</sup> o gorog J byddai ef varw.

Ac ynn yr ail vanachlog J syrthiodd ef mewn kleuyd mursen. J edrych y neb y doeth y brenin a'r abad a Merddin. Y nneb a ddyuod vddunt twy yn ol hir broses na byddai ef varw o gleuyd namyn tori J vynwgl a wnai ef.

Ac ynn ol hynn y vo aeth J'r drydedd vanachlog, yn y lle Jr ymddinodes<sup>5</sup> ef megis o'r blaen. J'r man y doeth y brenin, yr abad a Merddin y'w edrych ef. Ynn yr amser J dyuod Merddin na byddai ef varw ar i wely nam boddi mewn dwr a wnai ef;—yr hyn a oedd dri dihennydd amboseibyl J vn dyn varw ohonaunt.

Ac ynn ol J'r chwedlau hyn danu ar lled ymhlith gwyr y llys, pawb a ddechreuodd ddiulasu chwedylau Merddin. Yr hyn a ganau ef ynn ebrwydd; o'r achos, megis ac

<sup>2</sup> *Lligr. ydoedde.*

<sup>1</sup> *Lligr. nadd.*

<sup>2</sup> *ef wedi'i ychwanegu uwchben y llinell.*

<sup>3</sup> *yn wedi'i ychwanegu uwchben y llinell.*

<sup>5</sup> *ygrifennwyd disgeinio ar ymyl y ddalen gan law ddireddarach.*

J mae hrai o'r llyure ynn<sup>1</sup> dangos, Jr adwnaeth ef gymaint o broffwydoliaethe ac a wnaethai ef ynn y blaen ac a'i hroddes wyntt wyneb yngwrthwyneb megis ac i bai ynn anos J neb J dyalld wynt o hynny allan.<sup>2</sup> Neithyr J mae hrai eraill o'r llyure yn dangos mae y pregethwr santtaidd Gildas mab Kaw o Brydain a'i troes hi wyneb a gwrthwyneb megis ac J bai anodd J neb haiach ddalld dim ohonnai nes J bod hi wedi dyuod yn eglur gar i bron wynt. O achos ynn yr amser yma Jr ydoedd Gildas yn pregethu J'r Bryttaniaid, yr hrain a welai ef yn broddi mwy o goel ar broffwydoliaethe Merddin nog ar eiriav Duw. O'r achos J gwnaeth ef wynt ynn anos J neb J daalld. Neithyr ni wna matter pa un ohonaunt twy a'i troes wynt yn dowyllach, kanis J mae'r hrai vwyaf o'r awduron yn kydsynio J troi wynt o'r sensau kynnta.

Ac val hyn, megis ac J mae'r ysdori yma yn dangos, megis ag Jr ydoeth y marchog a dreithir ynn y blaen ynn marchogaeth ar vrys dros bonnt dros ddwr, y vo a ddigwyddodd y'w varch ef dwmpio ar i duth; o'r achos J syrthiodd ef J'r llawr dros J varch a thros y bont, ynn yr hon J glynnodd vn o'i goese ef. Ac velly y kroged ef. Ac ynn y llam ne'r kwymp J tores ef J vynnawgyl. Ac velly J syrthiodd ef a'i benn yn y dwr. Ac yn y modd hwn<sup>3</sup> J kroged y marchog ac J tores ef J vynnawgyl ac J boddes ef. Ac ynn y modd hwn J bu ef varw o'r tri dihenydd.

Ac [348a] o hynn allan, os gwr a gae gwmpeniaeth Merddin ac o'i broffwydoliaethau, er J bod wyntt yn anos J dyalld nog ynn y blaen—neithyr etto er hynn J mae'r ysdori yn dangos wneuthud o Verddin ymraualion broffwydoliaethe wrth<sup>4</sup> ddyssyf Arthur a'i ddamuniad. . . .

Aberystwyth.

THOMAS JONES.

## NODIADAU CYMYSG

### The Date of 'Hirlas Owain'

The poem *Hirlas Owain* by the poet-prince Owain (Cyfeiliog) ap Gruffudd ap Maredudd (RBP 1432-5) was composed by him in honour of his *teulu* for their prowess in a raid on a stronghold, perhaps at some place within the district of Maelor (*tremit gofey mur maelawr drefret . . . higlieu ym maelawr gawr uawr vuan*; note, however, *geyr mor lliant* in the lines quoted below). Apparently a chief purpose of the expedition was the liberation of a prisoner. The following lines may well provide the clue to the occasion of the poem:

Kyuaruu ysgwnn ac ysgarant  
 (aer) llas aer lloset(?) maer geyr mor lliant,  
 Mwynuawr (a) garcharawr a gyrchassant—  
 Meuric uab gruffudd, grym darogant;  
 Neut oed gochwys pawb pan atgorsant,  
 Neut oed lawn o heul hir vrynn a phant. (RBP 1434, 32-37).  
 . . . Gosgord vynydwawc, am eu kysgeit  
 Cawssant eu hadrawd cas vlawd vlaenyeit;  
 Ny waeth wnaeth yghytwyr yghalet (= yng ngreit?—*Cym* 22, 56) Vaelawr:  
 Dillwng carcharawr dylle(i)st woleit (= voleit) (ibid. 1435, 6-10).

<sup>1</sup> *Llyr*, ym.

<sup>2</sup> *Llyr*, ym.